# CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 (2)

## CYNGOR SIR PENFRO

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
## GORCHYMYN DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR 1995

**Cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 (2) o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn Cyfyngu ar Ddatblygu a Ganiateir.**

**CRONICLIADAU**

1. CYNGOR SIR PENFRO ("yr Awdurdod") yw'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â'r darn o dir a nodir yn y cyfarwyddyd hwn.

2. Mae'r Awdurdod yn fodlon mai buddiol fyddai peidio â gweithredu'r datblygu a ddisgrifir yn atodiad 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 ("y Gorchymyn") ac a ddisgrifir yn y Cyfarwyddyd hwn oni bai y rhoddir caniatâd iddo pan wneir cais.

**NAWR FELLY** mae'r Awdurdod yn unol ag Erthygl 4 yn y Gorchymyn a phob pŵer arall sy'n galluogi trwy hynny

**YN GORCHYMYN**

1. Na fydd y caniatâd a roddir gan Erthygl 3 yn y Gorchymyn yn berthnasol i'r datblygu a nodir yn yr Ail Atodiad i'r Cyfarwyddyd hwn yn y darn a nodir yn yr Atodiad Cyntaf i'r Cyfarwyddyd hwn ("y Tir").

2. Amodir yn ffurfiol y bydd y Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i:

(a). **Rhan 1 Dosbarth A**
Ehangu, gwella neu wneud newid arall mewn tŷ preswyl lle byddai unrhyw ran o'r ehangiad, y gwelliant neu'r newid o flaen y lleoliad perthnasol.

(b). **Rhan 1 Dosbarth C**
Unrhyw newid yn nho tŷ preswyl lle mae goleddf perthnasol y to o flaen y lleoliad perthnasol.

(c). **Rhan 1 Dosbarth D**
Codi neu adeiladu porth y tu allan i unrhyw ddrws allanol i dy preswyl sydd o flaen y lleoliad perthnasol.

(d). **Rhan 1 Dosbarth F**
Darparu oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl wyneb caled i unrhyw ddiben cysylltiedig â'r tŷ preswyl lle byddai'r wyneb caled o flaen lleoliad perthnasol.

(e) **Rhan 1 Dosbarth H**
Gosod, newid neu adnewyddu antenna lloeren ar dŷ preswyl neu oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl, lle mae’r rhan o’r adeilad neu adeiledd arall y gosodir, newidir neu adnewyddir yr antenna lloeren arni o flaen y lleoliad perthnasol.

(f). **Rhan 1**
Adeiladu, newid neu symud simnai ar dŷ preswyl oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl.

(g). **Rhan 2 Dosbarth A**
Codi, adeiladu, gwella neu newid giât, ffens, wal neu fath arall o amgae lle byddai’r giât, y ffens, y wal neu’r math arall o amgae oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl a byddai o flaen y lleoliad perthnasol.

(h). **Rhan 2 Dosbarth C**
Paentio’r tu allan i dŷ preswyl neu unrhyw adeilad neu amgae oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl sy’n cynnwys paentio unrhyw ran o’r tu allan sydd o flaen lleoliad perthnasol.

(i). **Rhan 31 Dosbarth B**
Dymchwel y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw giât, ffens, wal neu fath arall o amgae sydd oddi mewn i gwrtil tŷ preswyl ac o flaen y lleoliad perthnasol.


Yn yr erthygl hon ystyr "lleoliad perthnasol" yw ffordd fawr, dyfrffordd neu fan agored.

3. Yn unol ag Erthygl 5(4) yn y Gorchymyn, nid oes angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y cyfarwyddyd hwn oherwydd ei fod yn ymwneud yn unig â datblygu a ganiateir gan Rannau 1 i 4 o Atodiad 2 i’r Gorchymyn a bod yr awdurdod o’r farn y byddai’r datblygu yn niweidiol i gynllunio eu hardal yn gywir neu y byddai’n fygythiad i amwynderau eu hardal. Bydd y Cyfarwyddyd yn dod i ben ymhen chwe mis o’r dyddiad y gwneir ef oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei wrthod, mae’r cyfarwyddyd hwn yn ddarpariaethol, bydd unrhyw gyfarwyddyd yn y dyfodol yn orfodol. Bydd y Cyfarwyddyd, yn unol ag Erthygl 5(10) yn y gorchymyn, yn dod i rym mewn perthynas ag unrhyw ran o’r Tir a bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi rhybudd o wneud y Cyfarwyddyd mewn papur newydd sy’n cylchredeg yn yr ardal leol y mae’r Tir ynddi ac, yn unol ag Erthygl 5(15) yn y Gorchymyn, bydd y Cyfarwyddyd yn dod i rym y dyddiad y cyhoeddir y rhybudd gyntaf.

# YR ATODIAD CYNTAF

## CYFARWYDDYD ERTHYGL PEDWAR – DOC PENFRO

COPI O'R MAP O ARDAL GADWRAETH DOC PENFRO YN DANGOS TIR Y MAE'R CYFARWYDDYD YN EFFEITHIO ARNO.



## YR AIL ATODIAD

## CYFARWYDDYD ERTHYGL PEDWAR – DOC PENFRO

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dileu Datblygu a Ganiateir o dan Erthygl 3 yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol ar gyfer unrhyw adeilad yn Ardal Gadwraeth Doc Penfro sydd o flaen ffordd fawr, afon, dyfrffordd neu fan agored. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith canlynol o ddyddiad y Cyfarwyddyd hwn ymlaen:

1. Unrhyw newid ar do, yn cynnwys gorchuddion y to, ffenestri yn y to a phaneli heulol.
2. Adeiladu porth.
3. Codi cytiau ac adeiladau dros dro.
4. Adeiladu llain galed.
5. Gosod dysgl neu antenna lloeren.
6. Symud, adeiladu neu newid simneiau.
7. Symud neu adeiladu waliau, giatiau, ffensys neu fathau eraill o amgae.
8. Unrhyw ehangu neu wella neu newid fel estyniad neu ystafell wydr.
9. Unrhyw newid ar ddrysau neu ffenestri, yn cynnwys newid defnyddiau, manylion a dyluniadau a mathau o orffeniad addurnol.
10. Unrhyw newid a fyddai'n newid ffurf neu olwg neu ddefnydd unrhyw oleddf ar do.
11. Unrhyw newid ar dŷ preswyl y gellir ei weld o'r tu mewn i Ardal Gadwraeth, fel newid y rendro.